



Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020-2035

EB43: Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol

Mai 2025

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
2020–2035

EB43

Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol –
Cynllun Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir
Ddiwygiedig)

Mai 2025

Crynodeb annhechnegol

Mae'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol yn crynhoi'r gwaith ymgysylltu ac adborth o ran Strategaeth a Ffeirir Ddiwygiedig Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd 2020–2035 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a oedd yn destun ymgynghoriad rhwng 15 Ionawr a 26 Chwefror 2025. Mae'r adroddiad yn dangos cydymffurfio â Chytundeb Cyflawni a Chynllun Cynnwys Cymunedau y Cyngor ac yn amlinellu sut y bydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn llywio paratoi'r Cynllun Adneuo.

Ymgynghori ac ymgysylltu

Ymgwymerodd y Cyngor â rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr, gan gysylltu â 1,708 o randdeiliaid ac ymgynghoreion drwy ohebiaeth uniongyrchol, llwyfannau ymgynghori ar-lein, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, arddangosfeydd cyhoeddus a digwyddiadau cymunedol. Denodd chwe digwyddiad ymgysylltu wedi'u hwyluso gan Cymorth Cynllunio Cymru 131 o bobl, ynghyd ag arddangosfeydd wedi'u staffio a sesiynau galw heibio.

Cyflwynodd cyfanswm o 1,003 o unigolion sylwadau, gan arwain at 1,986 o sylwadau am y Strategaeth a Ffeirir Ddiwygiedig, safleoedd ymgeisiol a dogfennau tystiolaeth ategol. O'r rhain, roedd 1,606 o sylwadau yn ymwneud â safleoedd ymgeisiol.

Materion allweddol

Sefyllfa Llywodraeth Cymru

Canlyniad sylweddol o'r ymgynghoriad yw cadarnhad Llywodraeth Cymru fod y Strategaeth a Ffeirir Ddiwygiedig **yn cydymffurfio'n gyffredinol â 'Cymru'r Dyfodol'**, gan gynnwys polisiâu cenedlaethol sy'n ymwneud â thwf, creu lleoedd, canol trefi, ynni adnewyddadwy a Metro De-ddwyrain Cymru. Cododd Llywodraeth Cymru nifer o faterion i'w hystyried cyn y cam adneuo, gan gynnwys y canlynol:

- Cydweithredu rhanbarthol ac aliniad strategol.
- Cyfiawnhad twf tai a chyflogaeth.
- Hierarchaeth aneddiadau ac eglurder dosbarthiad gofodol.
- Tystiolaeth am dai fforddiadwy ac Asesiad o'r Farchnad Dai Leol wedi'i ddiweddarau.
- Hyfywedd safleoedd, gofynion isadeiledd a'r gallu i gyflawni.
- Ystyriaethau tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Yn hollbwysig, nid oes yr un o'r materion hyn yn atal y cynllun rhag symud ymlaen i'r cam adneuo.

Prif faterion a gafodd eu codi yn ystod yr ymgynghoriad

Roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:

Twf a fforddiadwyedd tai

- Cytundeb cyffredinol am yr angen am dai ychwanegol.
- Pryderon cryf ynghylch fforddiadwyedd cartrefi newydd.
- Ceisiadau am ragor o ffocws ar dai fforddiadwy a thai cymdeithasol.
- Galw am gymysgedd ehangach o fathau o dai, gan gynnwys cartrefi llai a llety ar gyfer preswylwyr hŷn.

Datblygu tir llwyd neu ddatblygu tir maes glas

- Pryder ynglŷn â'r posibilrwydd o golli tir maes glas.
- Cefnogaeth eang i flaenoriaethu ailddatblygu tir llwyd ac aildddefnyddio eiddo gwag.
- Cydnabyddiaeth gan y Cyngor, pan fo modd, y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i dir llwyd, ond bod cyfyngiadau hyfywedd yn golygu y bydd angen datblygu rhywfaint o dir maes glas.

Capasiti isadeiledd

Pryderon rheolaidd yn ymwneud â'r canlynol:

- Tagfeydd ar y priffyrdd.
- Darparu trafnidiaeth gyhoeddus.
- Capasiti ysgolion.
- Gwasanaethau gofal iechyd.
- Isadeiledd llifogydd a draenio.
- Capasiti rhwydwaith carthffosiaeth.

Yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd

Roedd ymatebwyr yn cytuno'n gryf â'r canlynol:

- Diogelu bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd.
- Rheoli perygl llifogydd.
- Gweithredu mesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd.
- Cynhyrchu ynni adnewyddadwy lle mae effeithiau'n cael eu rheoli'n briodol.
- Diogelu asedau treftadaeth a thirweddau.

Safleoedd ymgeisiol

Safleoedd ymgeisiol a gynhyrchodd y lefel uchaf o ymateb gan y cyhoedd, gyda **1,391 o wrthwynebiadau** wedi'u cofnodi. Roedd y safleoedd mwyaf dadleuol yn cynnwys y canlynol:

- **CB023 Tir i'r de o Rudry Road** – 327 o wrthwynebiadau.
- **YM010 Tir yn Fferm Rhos** – 231 o wrthwynebiadau.
- **CB025 Fferm Nant-y-calch (Opswn A)** – 167 o wrthwynebiadau.
- **CB004 Tir yn Eneu'r-glyn** – 62 o wrthwynebiadau.

Mae'r Cyngor yn nodi y bydd sylwadau am safleoedd ymgeisiol yn cael eu hystyried drwy'r broses asesu safleoedd barhaus cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch dyraniadau.

Camau gweithredu allweddol cyn y cam adneuo

Bydd y Cyngor yn ymgymryd â gwaith pellach i gryfhau'r Cynllun Adneuo, gan gynnwys y canlynol:

- Diweddarau'r asesiad o'r farchnad dai leol.
- Adolygu targedau tai fforddiadwy.
- Cynhyrchu tystiolaeth fanwl am ddosbarthiad gofodol.
- Mireinio rhagdybiaethau cyflenwi a darparu tai.
- Cynnal asesiadau hyfywedd ac isadeiledd.
- Nodi gofynion isadeiledd a mesurau lliniaru safle-benodol.
- Diweddarau tystiolaeth amgylcheddol, asesiadau seilwaith gwyrdd ac asesiadau perygl llifogydd.
- Parhau â chydweithio rhanbarthol ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Casgliad

Mae'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gyffredinol o ran cyfeiriad cyffredinol y Strategaeth a Ffeirir Ddiwygiedig, yn enwedig ei ffocws ar dwf cynaliadwy, gwytnwch economaidd ac adfywio. Er bod pryderon wedi'u codi ynglŷn â lleoliadau tai, capasiti isadeiledd, fforddiadwyedd ac effeithiau amgylcheddol, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod y strategaeth yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol yn gyffredinol. Bydd y Cyngor nawr yn defnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad a chasglu tystiolaeth bellach i baratoi'r Cynllun Adneuo i'w gyhoeddi'n ffurfiol.